

Cydlynedd Wrecsam Agored 2018 - Swydd-ddisgrifiad

Oriau:	160
Ffi:	£2000
Dyddiad cau ar gyfer ceisiadau:	09/06/2018
Dyddiad cyfweiliad (wythnos yn dechrau):	16/07/2018
Dyddiad dechrau:	23/07/2018
Dyddiad Gorffen:	21/12/2018

Mae Tŷ Pawb yn chwilio am gydlynedd ar gyfer arddangosfa Wrecsam Agored a fydd yn cael ei chynnal yn fuan.

Wrecsam Agored yw arddangosfa fwyaf cynhwysol Wrecsam, ac eleni bydd yn cael ei chynnal ar y cyd gan Tŷ Pawb ac Undegun.

Bydd gan yr ymgeisydd llwyddiannus rôl sylweddol i'w chwarae wrth weithredu a chyflwyno prosiect Wrecsam Agored. Byddwch yn gweithio rhwng cyhoeddi'r cyfnod cyflwyno hyd at yr arddangosfa ei hun ac yna dychwelyd y gwaith celf yn ddiogel. Bydd y Cydlynedd yn gweithio gydag ag aelodau'r tîm o Tŷ Pawb ac Undegun, a fydd yn cynnal yr arddangosfa ar y cyd.

Mae'r swydd yn blatfform delfrydol i gael profiad mewn amgylchedd celfyddydol cyflym.

Mae Tŷ Pawb yn adnodd cymunedol diwylliannol a fydd yn dod â'r celfyddydau a'r marchnadoedd ynghyd yn yr un lle. Bydd y cydfodoli hwn yn dathlu arwyddocâd marchnadoedd yn nhreftadaeth a hunaniaeth ddiwylliannol Wrecsam.

Yn seiliedig ar hen adeilad Marchnad y Bobl yng nghanol y dref, mae'r datblygiad yn ofod newydd ar gyfer deialog o gylch pynciau sy'n cynnwys materion cymdeithasol a dinesig, yr amgylchedd, iechyd, hunaniaeth ddiwylliannol, cynaliadwyedd ac addysg.

Mae Undegun yn ofod creadigol amlbwrpas, sy'n cael ei gefnogi gan elusen o Leeds East Street Arts, sy'n annog cymuned Wrecsam i ymwneud â'r celfyddydau.

Mae Undegun yn cynnig gofod stiwdio a gofod perfformio fforddiadwy, yn ogystal ag amrywiaeth o orielau unigryw. Mae Undegun wedi croesawu amrywiaeth o artistiaid, cerddorion, dawnswyr a chynhyrchwyr ffilm i arddangos, perfformio a recordio ar y safle ers 2013.

Bydd gan yr ymgeisydd delfrydol ddealltwriaeth dda o sut mae Tŷ Pawb ac Undegun yn gweithredu.

Cyfrifoldebau:

- Ymateb i ymholiadau gan y cyhoedd
- Rheoli cyfryngau cymdeithasol
- Trefnu i weithiau celf gael eu cyflenwi
- Trafod gydag artistiaid, technegwyr ac aelodau eraill o staff

Manylion am yr Unigolyn:

Hanfodol:

- rhywfaint o brofiad blaenorol mewn rôl weinyddol
- gwybodaeth, dealltwriaeth a gwerthfawrogiad o nifer o arferion celfyddydol
- gwybodaeth dda am yr ardal leol
- sgiliau rhyngbersonol da

Dymunol:

- Yr Iaith Gymraeg
- cymhwyster lefel gradd mewn pwnc sy'n gysylltiedig â'r celfyddydau
- ymdrin â chelf

Sut i wneud cais:

Anfonwch e-bost at james.harper@wrexham.gov.uk gyda 'Wrexham Open Coordinator' fel y testun a'r dogfennau canlynol wedi'u hatodi:

- CV llawn
- Llythyr eglurhaol yn amlinellu pam eich bod yn addas ar gyfer y swydd, gan gyfeirio at gyfrifoldebau a manylion am yr unigolyn ac ymhelaethu ar unrhyw brofiad sydd wedi'u rhestru yn eich CV (dim mwy na 500 gair).
- O leiaf 2 eirida